



Ymddiheuriad



Evans wrth lun y codau eirin ar dudalen 5.



Trwy amryfusedd anffodus anghofiwyd cydnabod y ffotograffydd Alun Willams wrth lun y pal ar dudalen flaen **Rhifyn 90** a Debbie

Brithribin w-wen, Gorffennaf 16 eleni, gwarchodfa Pool Park, Rhuthun (uchod). Wedi chwilio am y glöyn byw yma ar sawl achlysur heb lwyddiant ond ei weld y prynhawn 'ma am y tro cyntaf. **Alun Williams**

brithribin w-wen eg brithribiniau w wen Satyrium w-album White-letter Hairstreak

Gwyfynod a Glöynnod Byw. Cymdeithas Edward Llwyd 2007

Menyn budr, llin drewllyd a snobyddrwydd rhonc!

Wrth gasglu cofnodion tywydd i'r Tywyddiadur dyma ddod ar draws hyn gan Cleone Knox, gwyddeles ifanc fashiynol ond digon di-nonsens, tra'n lletya ym Melffast gyda'i theulu ar y 28 Ebrill 1764 ac yn aros am wynt teg i groesi i Lerpwl:

..Was woke up very early by a street cry below my window of "Dirty Butter for Servants!" and putting my head out of the window, perceived that it was a wet cold day. We were in all mightily vexed to learn that the Pacquet which is to convey us to Liverpool with half a dozen other passengers cannot put out to sea today, and so we may find ourselves in this odious place till such time as Heaven is pleased to send us a fair wind. Indeed I have heard of Pacquets sailing as much as 23 days after the time advertised.... To Ned and my father's disgust, the Company in this Inn is comprised solely of Linen merchants. Decent enough looking men in my opinion, but Ned turns up his nose when they enter the room, and exclaims in a none too low voice, "S`death, open the window, I smell flax," for which piece of coxcombry I reproached him ...

Dyddiadur Cleone Knox (The Diary of a Lady of Fashion

Roedd y **diwydiant llin** yn bwysig iawn yng ngogledd Iwerddon am ganrifoedd

Pwcs yn yr ardd

25 Gorffennaf 2015: Pwcs o hel cyrains duon eto - mae nhw yn hir iawn yn gorffen duo serch fod cnwd da. Newydd orffen hel y pys Kelvedon Wonder - cnwd da a golwg am sbelan dda o bys o'r Hurst Green Shaft. Y dryw bach yn dwrdio yn arw o'm cwmpas, mae yn cario bwyd yn ddygn i'r nyth. Sylwais ei fod yn canu wrth gario baw y cywion o'r nyth. Y cacwn yn parhau i fod yn brysur o gwmpas eu nyth hwytha. **Olwen Evans**

Gwalchwyfyn hofrol yn Nghynllwyd



Cynllwyd, Meirionnydd Awst 8 2015. Wedi gweld un yma o'r blaen ac un yn yr ardd yng Nghaerdydd rai blynyddoedd yn ôl. Synnu eu bod yn dod yma - 800 - 1000' - ydi hi'n anarferol iddyn nhw fod mor uchel tybed? Ac eto, os ydyn nhw'n dod o'r cyfandir . . .

Luned Meredith

Hwn ydi'r cofnod uchaf eto sydd wedi cyrraedd Llên Natur. Ydych CHI wedi gweld rhai eleni? Dyma **un diweddar arall** o Ruddlan gan Eifion Griffiths.

Cnapiro'r fflint yn Nghaerwynt



Ar ymweliad â Chaerwynt (*Winchester*) ym mis Gorffennaf eleni (2015) roeddwn i'n methu tynu fy llygaid oddiar hen waliau fflintiog y dref, yn enwedig ar ôl i rywun lleol ddweud wrthyf i edrych allan am barau o fflintiau wedi eu cnapio yn eu hanner (*knapped flints*) yn ddau o'r un darn o gallestr (fflint). Doedd y parau hyn ddim yn niferus iawn (yn ddibynnol mae'n debyg ar y lle y bu'r waliwr yn eu cnapio, un ai wrth godi'r wal ynteu cyn cyrraedd y safle gwaith). Bum yn ffodus, wrth llygad-rythu ar y fflintiau un bore, bod waliwr a chnapiwr fflint wrth ei alwedigaeth wedi dod heibio gan sylwi ar fy niddordeb. Buom yn sgwrsio am sbelen ar y pafin, ac ymhlith ei araeth oedd y sylw mai wrth y gwaith y byddai'r cerrig yn cael eu cnapio, ac felly gellid disgwyl parau cyfagos yn aml. Nid dyna oedd fy mhrofiad i fodd bynnag - dyma'r unig ddau bàr a welais!

Dywedodd y gwr o gnapiwr mai deunydd rhad wedi ei godi yn rhydd o'r caeau yw fflint. Nid wyneb yn unig i'r wal ydynt chwaith ond maent yn rhedeg drwodd wedi eu cloi wrth ei gilydd fel wal gerrig yng Nghymru. Dim ond cerrig yr wyneb fodd bynnag sydd yn cael eu hollti i greu wyneb llyfn. Oherwydd hyn yn ôl y gwr hynaws, roedd partneriaid y fflintiau torredig yn anhebyg o fod ym mol y wal

Duncan Brown


Cornel y pedant

Cawsom drafodaeth brwd wrth safoni enw'r gwalchwyfyn hofrol (chwith). **GWALCHWYFYN HOFRAN** yw'r cynnig amlwg (cymharer **CADAIR SIGLO, CWCH RHWYFO** ayb.). Ar boen ymddangos yn bedantig, gweithred y sawl sydd ynddynt yw'r siglo a'r rhwyfo - nid symudiad ohono ei hun, fel yn achos y pryf. Proses gynhenid i'r pryf yw'r hofren, ac felly penderfynwyd ar **GWALCHWYFYN HOFROL** - y gwalchwyfyn sydd yn **HOFRAN**, nid yn **CAEL** ei "hofro". *Hovering fly* ond *rowable boat* efallai?


Gol.

Nodau perchnogi anifeiliaid

(or one in his stead) on the king's coronation day, and in the presence of the king to proclaim and challenge any



... shall affirm the king not lawfull heire to the crowne



Nodau pig elyrch (chwith); nodau clust ceirw pobl Lap o risgl bedw (canol); nodau clust defaid Y Bala (de). Mae'r nodau'r elyrch o *Archaeologa, Societ of Antiquairs, Llundain*, y ceirw o Amgueddfa Pitt Rivers Rhydychen a'r defaid o lawlyfr Heddlu Gogledd Cymru.

Nythu ar y trot

Bu i wennol wneud nyth yn trelar Geoff Hughes, Bont, Malltraeth. Fe wnaeth yr un peth ddigwydd llynedd hefyd.



ceisiodd eu atal eleni trwy ddiarrio eu hymdrechion cyntaf o nythu. Ond llwyddo wnaethon nhw. Bu rhaid mynd a gwartheg, yn y trelar, i arwerthiant yn Gaerwen, yn cynnwys y nyth a'r nythiad o wyau. Bu rhaid mynd wedyn ond y tro hwn, roedd cywion yn y nyth. Bu iddynt oroesi'r trip heb ddim ymyraeth gan y gwartheg oedd yn y trelar chwaith. Yr oedd Geoff wedi rhoi tap glydiog i gadw y nyth rhag chwalu. Nid pob Wennol all ddweud eu bod wedi bod yn ol a



blaen i Gaerwen cyn mynd yn ôl a blaen i Affrica !

Wil Williams.

A dyma (chwith) wennol arall gan Alun Williams: "cevais gyfle ar ddydd Sul, Mehefin 7ed, 2009 i deithio i Bont Croesor i weld Gweilch y Pysgod. Braf oedd sylwi tri cyw iach yn y nyth. Mewn nyth arall yn y guddfan roedd nyth

gwennol, gyda'r cywion yn disgwyl tamaid gan yr iar a'r ceiliog. Roeddynt yn bwydo bob dau neu dri munud

Alun Williams

Y Rhostog yn dathlu'r 20



Tra 'roedd rhaglen arbennig o 'Galwad Cynnar' yn cael ei recordio yng Ngwarchodfa Natur Conwy ar y 23ain o Orffennaf, i dathlu 20 mlynedd ers sefydlu canolfan yr RSPB yno, achoswyd cynnwrf gan rai o'r panel pan welwyd rhostog gynffon ddu drwy'r telesgop. Llwyddodd Marc Hughes i dynnu'r llun yma o'r aderyn.

Trwy law Gareth Pritchard

Yr enw Saesneg yw *black-tailed godwit* ac enwau Cymraeg arall yw Cwtyn Du a Rhostog. Yn anffodus, ni fydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar Radio Cymru hyd y 29ain o Awst. GP




'Roedd penwythnos Gorffennaf 25 a 26 yn achlysur arbennig yng Ngwarchodfa Natur Conwy gan fod 20 mlynedd wedi pasio ers pan agorwyd hi ac mae'n anhygoel sut mae wedi datblygu mewn cyfnod cymharol fyr.

Un o'r niferfaith o ddigwyddiadau oedd dadorchuddio cerflun o waith Simon O'Rouke, a welir yn y canol, gan Iolo Williams. Hefyd yn y llun mae Julian Hughes, rheolwr y warchodfa. Mae nifer o gerfiadau Simon bellach i'w gweld o gwmpas y lle. GP


Nodyn i ddarlennwyr fersiwn bapur y Bwletin:

cofiwch bod y geiriau mewn print coch yn ddolenni "byw" ac yn arwain at bob math o wybodaeth bellach yn fersiwn y we. Dydi'r gwasanaeth hwn ddim ar gael wrth gwrs yn y fersiwn bapur. Gol.

Newidiadau ym mewnlfriad y chwiwyll




Yn ei gyfrol *A History of British Birds* (1884-5) cyflwynodd William Yarrell gyfrifon o faint yr helfa chwiwyll a ddaeth i'w ran ar gors yn Essex dros cyfnod 1714-1728. Dyma osod a wybodaeth ar ffurf y graff uchod. Meddai Yarrell: *This proves that 150 years ago the great takes [helfeydd] of Wigeon were made in the early autumn months, not as at present [1884] in January, February, March.*



▲ Monthly indices for Wigeon in UK.

Green bars = 2013/14; blue line/hatched area = previous 5-year

Dyma ddata cyffelyb ar gyfer Prydain gyfan rhwng Awst i Fehefin 2013/14 o gronfa y *National Wildfowl and Wetlands Survey* o'u hadroddiad ddiweddar. Mae'n ymddangos o hyn bod y chwiwell yn dilyn patrwm mudol sydd yn cyfuno'r hyn ydoedd yn y ddau gyfnod a bod y chwiwyll yn cyrraedd ym mis Medi ond y niferoedd yn parhau'n uchel tan ddiwedd y gaeaf. Ysgwn i beth ddigwyddodd i chwiwyll y 18g. ym misoedd Ionawr a Chwefror ddechrau'r ddeunawfed




18 Mawrth, 2013

ganrif. A phaham a phryd y newidiodd pethau?

Llun: Ceiliog chwiwell yng Ngwarchodfa Natur Conwy, Eifion Griffiths

Llawer mwy o luniau yn yr Oriel

Maen-dyllwyr Caer Lwytgoed



Yn ddiweddar yr oedden ni'n yn ymweld â Chaer Lwytgoed (Lichfield) er mwyn cymryd tro o amgylch yr Eglwys Gadeiriol. Dyw Caer Lwytgoed ddim yn anghyfarwydd i'r Cymry oherwydd yr Efengyl hynafol yno yn y Chapterhouse. Efengyl a oedd ar un adeg yn cael ei gadw yn Llandeilo Fawr. Mae hi'n bosib wrth gwrs gweld ysgrifen hynafol Cymraeg ar ymylon y tudalennu. Ta waeth. Ar wal o dywodfaen mewn adeilad sy'n sefyll gyferbyn a'r Eglwys Gadeiriol wnes i sylwi bod tyllau niferus mewn un o flociau tywodfaen y tŷ, (gweler llun). Tybed beth yw'r pryfed sy'n achosi'r rhain?

Jonathan Simcock

Mae Ray Roberts, y daearegydd yn dweud: "Tyllau pryfed dwi meddwl yw rhain. Dim rhywbeth yn y graig ei hun. Mae'r tywodfaen yn edrych fel rhai sydd wedi ei dyddodi gan y gwynt (aeolian) gyda'r gronynnau wedi ei smentio gan *iron oxide*. Felly tywodfaen eitha meddal. Oes yna olion y cocoon neu rhywbeth yn rhai o'r tyllau?" Felly, yn ôl Ray, y pryfed sydd wedi gwneud y tyllau. Erys y posibilrwydd yn fy meddwl i (DB) mai manteisio ar y tyllau ('swigod aer ffossil?) yn y graig a wnaeth y pryfed. Ond mi fyddai Ray wedi cyfeirio at y posibilrwydd hwnnw dwi'n siwr. Ac fel y gwelir, mae plisgyn corff y pryf yn llenwi'r twll yn berffaith. **Gol.**

Ac yna bu tair (yslywen)!

Ers blynnyddoedd mae sliwen wedi cyrraedd pwll o ddwr yn yr afonig fechan yng ngwaelod yr ardd [Llanrug]. Pan oedd y plant yn fach, roedd 'Sali Sliwen' yn cael sylw pan gai ei gweld gyntaf. Yr un oedd yr hanes efo'r wyrion a'r wyresau. Mae wedi cyrraedd eto eleni. Neithiwr [8 Awst], tra'n hel mafon, daeth swm sblashio o'r afon. O fynd i weld, cael fod dwy sliwen yn ymgorddeddu yn y pwll. Doedd dim posibil cael llun gan fod y llaid ar wely'r afon yn cael ei godi'n gymylau gan y sliwod.

Ond o edrych yn fwy manwl, cael fod yno dair sliwen-i gyd tua troedfedd a hanner o hyd. Roedd un yn ceisio gwthio i mewn i dwll dan un o'r cerrig, ond yn methu cuddio ei hun i gyd, ac roedd yn ymddangos fel pe bai un o'r ddwy arall (neu'r ddwy hyd yn oed) yn ceisio ei brathu. O'r diwedd, trodd ar ei sawdl (!) a nofio i ffwrdd i lawr yr afon. Llonyddodd y ddwy arall am ychydig, ond yna dechrau pwnio ei gilydd unwaith eto. Ymddangosai fel pe bai un yn brathu'r llall yn ei hochr, a diflannodd y ddwy i fyny'r afon ac o dan grawen o lechen. Welais i mohonynt wedyn. Dyma'r tro cyntaf imi weld mwy nac un sliwen gyda'i gilydd yn yr afon.

Dafydd W. Thomas

Casglu wyau - ond i ba bwrpas?



Helpfa dda o wyau, Flamborough Head, Swydd Efrog, Gorffennaf 1926. Rhif Caniatad *Historic England Archive: 4530* Pam roedd rhain angen y fath wyau? Tybed ai dyma'r ateb (ganrif ynghynt):

Large numbers of [Common Guillemot] eggs collected at the Lundy Island are taken to Bristol, where they are said to be used for clarifying wine; and at Flamborough Mr Cordeaux was informed that many were sent to Leeds, the albumen being employed in the preparation of patent leather

Yarrell W (1845) : A History of British Birds Volume 4. Bibliolife Gwylog (heligog, hwylog, chwilog, gwilym aaron [gweler razorbill] (Bangor), bridin bach, moriah, breedin, dybruan, potsen (Ceinewydd), gwylawg, *Uria aalge*

Rhagor o Enwau Adar: Dewi E Lewis a Chymdeithas Edward Llwyd <http://tinyurl.com/pgkkpep>

Alun Williams Gwylog ar y mor ger ynys Noss, Shetland. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan mae gwylog ifanc yn neidio o'r clogwyn, gyda'r nos fel arfer, ac yn dilyn y rhieni i'r mor mawr.



Cywilydd y deintydd



Alun Williams

Os am **saethu anifael prin** defnyddiwch gamera <http://www.theguardian.com/world/2015/jul/29/cecil-the-lion-calls-for-prosecution-us-dentist-walter-palmer>

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027).

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.com.

Nyth pioden for




Tynnwyd llun o nyth y bioden fôr ar y traeth gro ym Mae Cemlyn, gogledd Mon. Yn arferol mae'r bioden fôr yn nythu o ganol mis Ebrill ymlaen - tynnwyd y llun hwn ar Orffennaf 2, 2015. Tybed pam bod y par wedi nythu mor hwyr yn y flwyddyn - mae'n bosibl bod yn nythiad cyntaf wedi ei ddifetha gan storm* neu bod y wyau/cywion wedi eu bwyta gan wylan, bran neu lwynog.

Erddyn Davies

...neu wrth gwrs pysgotwr mecryll ar y traeth, neu bobl a'u cwn. Mi roedd yna storm fawr* ar y 1 Mehefin eleni (2015) os cofiaf yn iawn. Dyma ddywedodd y diweddar Tom Jones ar y pryd: Golan: Dydd cyntaf o Fehefin ac mae yn stormus iawn yma trwy'r dydd. Y gwynt yn chwythu o ddeutu 60mya fan leiaf roedd yn gaddo 70 l 80 yn Aberdaron yn ol ystadegau'r tywydd amser cinio. Roedd yn wlaw trwm hefyd bron trwy'r dydd.

Y titw potel MWY



Sbiwch ar y scan yma o Lyfr Natur Ann (fy chwaer) o doriada - o'Y Cymro' ella - o tua diwedd 1949 dw i'n meddwl, gan TG Walker.

Wil Williams

Meddai Walker (chwith):

Tric newydd sbon sydd gan [y titw] yn awr [tua 1949] ydyw tyllu trwy'r topyn ar botel llefrith iddo gael llymaid o'r hufen oddiar y papur [papur sylwer, nid ffoil] ac o wddf y botel..... darllenais [fod y titw] yn bur hoff o ymborthi ar ymenydd aderyn bach pan fydd bwyd arall yn brin

Y DITW MAWR
 DYMA i chwel aderyn arall a weloch yn awl iawn o gumpas y ty yn ystod y gaeaf. Mae hwn yn ddoef, et efallai nad ydyw iawn mor ddoef â'i gefndir, y Ditw Tomos Las, a oedd genym dan sylw byddedus yn ol.
 Aderyn hardd o ran llw yw'r Ditw Mawr, y mwyaf o'r teulu. Un call dros ben ydyw hefyd. Tric newydd sbon sydd ganddo yn awr ydyw tyllu trwy'r topyn ar botel llefrith iddo gael llymaid o'r hufen oddiar y papur ac o wddf y botel. A weloch chiw ei wrth ei waith yn dilyn llefrith?
 Mewn twll y bwyd ystau yn nythu, ac mae ei wyau o'r un llw ag oddi'r Ditw Tomos Las, ond eu bod yn fwy o ryw ychydig o ran maint. Dymwedid amdano mai llofrudd yw, ei fod yn dueddol weithiau i jadd adar lliw mag ei hun. Ni wn i ai gwir ai pendu yw byni ond darllenais ei fod yn bur hoff o ymborthi ar ymenydd aderyn bach pan fydd bwyd arall yn brin.
 Fahan mae'r Ditw yn dodwy cymaint o wyau? Am mai oes fer sydd iddo ar y gorau. Mae yntau felly yn ceisio magu nifer fawr o blant mewn gobaith y bydd rhai ohonynt yn llywddio i fyw i godw'r rhywogaeth mewn bodolaeth.
 "Great Tit" a ddywedwn yn Saesneg; a Pella Mawr, Yswidw Mawr a Penloyn yn Gymraeg. — T. G. WALKER.

Efallai nad yw hyn yn gast mor ddiniwed wedi'r cwbl! "Pa bryd dechreuwyd gwerthu llefrith mewn poteli tybad?" meddai Wil. Fel y gwelsom yn y **rhifyn diwethaf tud. 7**, gwelwyd yr aferiad yn gyntaf yn Southampton yn 1921, wedi ei ddwyn o lestr carbod. Ymddengys felly iddi gymryd bron i 30 mlynedd i gyrraedd Sir Fón, cartref TGW. Tybed sawl blwyddyn y cymer i ditws Cymru ddysgu agor poteli plastig? Ynteu ai tranc y llefrith *homogenised* di-hufen sydd i gyfri am ddiffyg diddordeb y titw mewn llefrith bellach?

Giwana, Talycafn, Dolwyddelan a thaith olaf Bob Jones


--

Dolwyddelan 14 Ebrill 1891: Diwrnod pur dda eto heddyw ond oer. Bagiad o Gwana wedi dyfod i wraig y Singrig yn pwyso 150 o Talycafn. Planu Slots a Lettus. Gorffen yn y ffrynt ond eisiau hau.

Dyddiadur Daniel Williams, 5 Castle Terrace, Dolwyddelan (yng nhasgliad JW Jones LIG)


Pam cario gwano (tail adar o dde America) i Daliycafn i'w ddanfon i Ddolwyddelan? Meddai Twm Elias, "Giwana yn syth o Ecwador [Periw?] i Lerpwl decini ac ar y tren i wahanol werthwyr/ddosbarthwyr nwyddau amaethyddol - Llanrwst neu Gyffordd Llandudno?". Ond i Daliycafn? Pam ddim Trefriw?

A dyma Gareth Pritchard gyda hanesyn diddorol: 'Mae gen i lythyr anfonodd Bob, brawd fy Nain, o Chinha Islands, Peru, yn 1895 ble mae' n son am lwytho giwana ar ei long i'w gario i Ewrop [uchod, chwith]. Llong o Lerpwl i Gonwy fyddai'r fwyaf tebygol wedyn a llong llai i fyny'r afon wedyn. Roedd Bob o Dwyran yn llongwr ac mae ei lythyr ati hi gen i. Yn Ionawr 1895 anfonodd y llythyr rydw i wedi ei atodi at ei chwaer o Peru sy'n sôn am lwytho'r giwana (Tudalen 2)- 'coscodia' medda fo. Llong yr Alliance ac o Bob uchod. Yn anffodus, mae'n stori drist- dyna ei lythyr olaf. Ar y daith yn ôl collodd ei fywyd mewn storm yn y Cape Horn ddeufis yn ddiweddarach pan syrthiodd o ben mast. Fe'i claddwyd yn y môr, ond mae carreg goffa iddo ym mynwent Dwyran. Rydw i reit siwr hefyd mai mewn llong y byddai'r giwana yn cael ei gario o Lerpwl i Gonwy, ac oddi yno i fyny Afon Conwy mewn llongau llai i Dal y Cafn a Threfriw.



...nid oes yma ond (Bare Islands) tair sydd yma o honynt heblaw rhyw greigiau yma ac acw guano ydym yn gael yma neu yn fwy manwl coscodia ydwyf yn meddwl ydyw yr enw, neu yn Gymraeg tail yr ydym yn cael £1-8s-9d per ton am ddyfod ag ef i Europeac yr ydym yn cario dioyn dros 1.500 o tons o hono yr ydym wedi dechreu llwytho ers dydd sadwrn sef y 12th o'r mis yma ac yr ydym yn disgwyl y byddwn yn myned oddi yma tua diwedd y mis yma neu ddechrau febuary....

...nid oes yma ond (Bare Islands) tair sydd yma o honynt heblaw rhyw greigiau yma ac acw guano ydym yn gael yma neu yn fwy manwl coscodia ydwyf yn meddwl ydyw yr enw, neu yn Gymraeg tail yr ydym yn cael £1-8s-9d per ton am ddyfod ag ef i Europeac yr ydym yn cario dioyn dros 1.500 o tons o hono yr ydym wedi dechreu llwytho ers dydd sadwrn sef y 12th o'r mis yma ac yr ydym yn disgwyl y byddwn yn myned oddi yma tua diwedd y mis yma neu ddechrau febuary....



Y Gwalch Glas yn Llydaw

Cawsom y nodyn canlynol oddiwrth Wmffra Humphreys (Llydaw): "Clywais mewn amryw o ardaloedd yn Llydaw mai troi'n SPARFEL GLAZ fydd y GOG yn y gaeaf a rhaid yn dweud fod peth tebygrwydd". Yr enw Ffrangeg ar y gwalch glas yw *epervier*. Mae'n debyg mai tarddu o hwn mae *sparfel*. Gol.

Aiff Wmffra yn ei flaen i ddweud: "Enw arall a glywais yn Ploerdut, sef plwy Elltud, plwy mawr sy'n ffinio a phlwy Persquen yw *persquen*" "*Persquen*" yw *FIL GARH* [heddiw], deryn sy'n hedfan gyda'r cloddiau coediog



[megis y gwalch glas]. Dyma'r gymhariaeth (gwalch - chwith, cog - de).

Daeth Dominig Kervegant yn ôl i ddweud: "Cofio gair lleol : *foulgarh* = rhywun sy yn gwneud rhywbeth hollol fyrbwyll- ai yr hun peth ydi *fil garh* Hwmffra?". Swnio'n bosibl?"


Llun gwalch glas, Rhagfyr 1, 2012. Cyfeirnod grid: SJ 020778

Llun cog: Paratoi ar gyfer gwaith maes i blant Ysgol Bro Gwydir yn ardal Nant Bwlch yr Haearn a bod digon lwcus i weld ceiliog a iar . Roedd y ceiliog yn arddangos i'r iar gan hedfan o'i hamgylch, tra roedd sawl aderyn bychan yn ymosod arnynt. Yn anffodus erbyn rhedeg i'r car i nol y camera dim ond y ceiliog oedd ar ol. Tynnais y llun am bump y prynhawn, Mai 19.

Llun: gwalch, Eifion Griffiths; cog, Alun Williams

Camp Trawsfynydd... MWY

Yr oedd yr ysgrif ar Drawsfynydd yn Rhifyn 89 Llên Natur gan Keith O'Brien yn ddi-ddorol i mi canys efallai roedd fy nhaid (George Price, o Wrecsam) mewn un o luniau'r milwyr. Roedd ei ferch Iris (a aned Ionawr 1913) yn cofio aros yn fferm Y Gilfach Wen pan oedd ei thad yn gaptlen gyda chyfrifoldeb dros y carcharorion rhyfel, tua 1917. Symudwyd yr Almaenwyr i Drawsfynydd o'r Bala er mwyn gwneud lle i'r Gwyddelod ar ôl Gwrthryfel y Pasg 1916.



Gilfach Wen a'r Camp (Gilfach Wen yn y blaendir ar y dde - saeth)

Rhyw bedwar ugain mlynedd wedyn, cwrddais â Gretta Jones yn Sydney, NSW, ac fe roddodd i mi yr hanesyn bach hwn:

Y DORTH

'Bu farw fy nhaid yn sydyn iawn, felly yn gadael Nain, a fy nhad yn blentyn bach, i fyw ar y fferm o'r enw Tyddyn Du, ochr Dolgellau i'r gwersyll ac i Gilfach Wen. Un noson cyn iddynt noswyllo, daeth cnoc ar ddrws cefn Tyddyn Du. Yr oedd dau ddyn yno; dau garcharwr yr Almaen, yn trio eu goreu rhoddi ar ddeall i Nain mai eisiau bwyd oeddynt.

Newydd bobi y diwrnod hwnnw, rhoddodd dorth ffres iddynt, a synnwn i ddim na fuase hi wedi rhoi potelaid o laeth llefrith, neu laeth enwyn iddynt hefyd. (Pawb yn hoff ohoni drwy'r ardal; roedd yn wraig enwog gan ei bod yn hael bob amser). I ffwrdd â nhw yn eithaf hapus.

Bore trannoeth, daeth dyn swyddogol o'r gwersyll i Dyddyn Du a gofyn pwy oedd wedi rhoddi bara i'r carcharwyr. "Myfi," meddai Nain. "Ddylech chi ddim rhoddi dim iddynt," meddai'r dyn pwysig hwn. "Mae digon o fwyd a phopeth arall sydd yn angenrheidiol iddynt. Peidiwch a rhoddi dim iddynt byth eto." A troiodd ar ei sawdl i fynd ffwrdd – ond galwodd yn ôl arni a dweud ei fod wedi mwynhau'r dorth i frecwast; ei fod ef a'r swyddogion eraill wedi bwyta'r dorth y bore hwnnw!

A oedd fy nhaid yn rhan o'r digwyddiad hwnnw tybed?

Peter Edwards (Awstralia erbyn hyn)

cyfeiriadau: ISBN 0-646-34796-9; ISBN 978-1-4478-2252-3

Morghug hedegog ym mis Awst

Y stori'n llawn ym Mwletin Hydref. Os oes gennych sylwadau ar y "plaoedd" o forgrug hedegog eleni dewch a'ch straeon, a dyddiadau a sylwadau ar y tywydd os yn bosibl.

Gol.

Y pas - Cymru a Lloegr

You may be interested in this Welsh remedy for whooping cough. The Welsh preferred trout; the English thought a mouse was more appropriate. I found these while searching old newspapers.

John Bundock

A correspondent of the "Field" alludes to the extraordinary and almost superstitious faith which the natives of Wales have in trout as a diet in cases of serious illness, particularly whooping cough. The "medicine" consists of fresh milk in which a trout has been allowed to die naturally. The trout is left in the milk for six hours after death, and then the milk is administered to the child. The correspondent tried the experiment, and the child to whom the milk was given was "neither the better nor the worse" of the curious mixture.

Sir, When I had whooping cough in the spring of 1925, my mother was advised by the wife of the Earl of Dartmouth's butler to give me a mouse boiled in milk as a remedy for my horrible spasms. My mother, though of course grateful for the well-meant suggestion, preferred to let me suffer, as she was a little distrustful of country remedies.

Yours faithfully,
ELISABETH BREWER,
The Master's Lodge,
Emmanuel College,
Cambridge.

Western Mail Friday 13 Gorffennaf 1900, t4
The Times 27 Sept. 1982, p9.

Argyfyngau tywydd y misoedd diwethaf

California (syched)

Ffrainc (syched)

Enciliad y rhewlif

Bysedd y cwn gwynion.... MWY

Diddorol yw clywed am fysedd-cwn gwynion yng Ngwynedd. Yr wyf yn credu eu bod yn brin iawn yng Nghymru: dim ond unwaith y gwelais i un, a hynny yn ngogledd Ceredigion. Ond fe'u ceir yn bur aml yn yr Alban - gwelais nifer go lew ohonynt rai blynyddoedd yn ôl ar ochrau'r rheilffordd rhwng Inverness a Thurso. Ni wn i beth sy'n gyfrifol am y dosbarthiad hwn - a oes gan rhywun eglurhad?. Os ceir un, siawns na fydd ychwaneg ymhen pedair blynedd!

Nicolas Jacobs (Bangor)

Great picture of a Puffin on the cover this month! I like the icecream eating seagull too. The article inside on Foxgloves also caught my eye. On the bank that lies



beside the lane approaching my home [Bethel, Môn] clusters of purple foxgloves appear every year. This year a lone white specimen appeared (photo attached [chwith]). Funnily enough I took the attached photo on 25th June, same date that was mentioned in your article. Are the white's a colour variation of the normal purple flowers or are they a separate species?

Steve Roddick

Gwas neidr y de *Aeshna cyanea*



Tynnwyd y llun 6 Awst 2015 yng ngardd Maes Gwynedd, Groeslon, Waunfawr, gan Anita Myfanwy

Meddai Allan Brandon, cofnodwr gweision neidr gogledd Cymru: *It's an immature male Aeshna cyanea, a typical garden pond species.*

Sylwch ar y "lampau" melyn ar y thoracs. Mae'r gwas neidr glas *Aeshna juncea* yn gyffredin ac yn eitha tebyg iddo.

MWY am dân bach diniwed Llandudno

Dyma stori yn y papurau

<http://www.mirror.co.uk/news/uk-news/glowworms-having-sex-force-council-6226574>

Mae'r Cyngor bellach wedi newid y goleuadau i rai LED erbyn hyn rhag ymyrryd ar bleser y pryfed.

Pigion o ddyddiadur Thomas Jenkins, Llandeilo

22 Awst: Went to the Teifi* above Tre-cefel bridge to gather bullrushes

28th June 1838: The planet Jupiter suffered an occultation by the moon. The occultation taking place twenty nine minutes past 10pm. and the emmurtation at 19m past 11. There also happened an occultation of chi Leonis, a star of the 4th magnitude, it's emmurtation from behind the moon taking place the moment of Jupiters occultation.

Dyddiadur Thomas Jenkins, Llandeilo ("The Diary of Thomas Jenkins of Llandeilo" Gol DC Jenkins)

[*ydy'r silliafiad hwn yn awgrymu moderneiddio'r sillafu gan y golygydd]

Mae rhai o gofnodion Thomas Jenkins yn ei ddangos fel dyn chwilfrydig ac o flaen ei amser. Faint o bobl cyffredin fyddai'n astudio symudiadau'r planedau mor wybodus a chall heddiw? (Gweler Owain Gwyrfai **Bwletin 8: tudalen 4**). A pham mynd i gasglu bullrushes (cynffon y gath**)? Tybed oes yna gliw yma..... ?

LECTURE. The second of a series of lectures .. at the Town Hall.... when the Rev John Rowlands, vicar of Aberdovey, delivered an eloquent lecture, the subject of which was "The Bible." In the course of his remarks the lecturer said the name Bible was derived from the thin white skin wrapped round and round the stalk of the bullrushes which grew in large abundance on the banks of the Nile. This skin was called *biblus*," which means a book. This was the earliest name for a book, and was given to all books. But when it was discovered that the Book of God was the best of books, it was agreed that it should have the old name all to itself, so it was called the *Biblus* - the Bible, and the Book. The Bible is the oldest book in the world. Some portions of it were written more than 3,000 years ago, long before any human literature made its appearance....

Towyn-on-Sea and Merioneth County Times 12 Ion 1905

***Typha angustifolia*, cynffon-y-gath gulddail, Cynffon y Gath Leiaf, Ffon y Plant, Ffynwewyr Ellyllon, Ffynwewyr y Plant Hesgen Felfedog, Hesgen Felfedog Goraidd, Hesgen Felfedog Leiaf, Rhodell, Rholbren Calfelfed, Tapr y Dŵr, lesser bulrush

.....a dyma gofnod arall gan Thomas Jenkins:

4 September 1845 went with Mr TT Williams to see his farm called Pen-cae-mawr, beyond Llanfynydd. From there to Pistill Gwyn, his mother's, where we took tea. Found the whortleberry on the mountain in abundance got home at 9pm.

Llus neu llysi duon bach yw *whortleberry*. Onid mis Awst yw tymor arferol y llus heddiw?. Meddai Olwen Evans Rhostryfan ar 13 Awst 2015: "Morgrug yn hedfan yma a hefyd ar Fynydd Grug lle bu Arthur yn hel llus". Yn ardal Exmoor y cafodd Ifor y jam yma.

llun: Ifor Williams

